
# Cylchdaith Croesor

**CYMEDROL**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 5.5km (3.4 milltir)
- Hyd: 3 awr
- Math o daith: Cylchdaith

### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru




V-20251211/1052

1




Gadewch y maes parcio, trowch i'r chwith a dilynwch y ffordd i groesffordd. Ar y groesffordd trowch i'r dde a dilynwch y ffordd i lawr yr allt i droad sydyn i'r chwith, dilynwch y ffordd ymlaen sy'n arwain am rai metrau at grid gwartheg.

2



Ewch drwy'r giât fechan ar y chwith ger y grid gwartheg a pharhau ar hyd y ffordd am tua 50m metr nes cyrraedd trac graean ar y chwith. Cerddwch i lawr y trac gan ddilyn yr arwyddbyst i lawr yr allt. Wrth y fforch yn y trac, cadwch i'r llwybr canol a pharhau gan ddilyn yr arwyddbyst gyda'r ffens ar y chiwth ac i lawr at giât bren. Ewch drwy'r giât a pharhau i lawr yr allt ar hyd y trac i agoriad

3




Wrth yr agoriad, cadwch i'r chwith gan ddilyn y trac ar hyd llinell y ffens. Ymlaen heibio i weddillion hen chwarel, Chwarel y Parc, a dilyn y llwybr at giât fetel. Ewch drwy'r giât gan ddilyn y llwybr ag arwyddbyst syth ymlaen wrth iddo godi uwchben yr afon at giât mochyn. Byddwch yn ofalus yma, gall y llwybr fod yn wlyb dan draed ac mae llethr serth i'r afon islaw.

4




Ewch drwy'r giât mochyn, ac ewch i'r dde yn syth gan gerdded drwy'r cae wrth ymyl y domen rwbel lechi ar y chwith i chi ac at drac y fferm. Dilynwch y trac a'r cyfeirbwyntiau i lawr yr allt, drwy giât fetel ger grid gwartheg nes i chi gyrraedd pont goncrit sy'n croesi'r afon Maesgwm.

5




Ewch dros y bont a throwch i'r dde i ddilyn y llwybr troed ar hyd yr afon, gyda'r afon ar y dde i chi dilynwch y llwybr i'r ffordd fawr, yr A4085. Ewch drwy'r giât fetel a throwch i'r dde i ddilyn y ffordd fawr dros y bont at y fynedfa i Felin Parc sydd ar ôl y bont ar y dde i chi. Mae'n bellter byr ar hyd y ffordd fawr ond gall y ffordd fod yn brysur felly cymerwch ofal.

6





Ewch drwy'r giât fechan ar y dde ger y grid gwartheg, a pharhau ar hyd y trac i gyfeiriad Felin Parc. Ewch heibio'r tŷ, Tan y Glogwyn ar y chwith a chadwch i'r chwith gan ddilyn y cyfeirbwynt i fyny'r tracserth concrid i'r chwith o Felin Parc nes i chi gyrraedd llwybr troed ar y chwith.

7




Dilynwch y cyfeirbwynt oddi ar y trac ac ar hyd y llwybr troed heibio i dŷ, Tŷ Gelli, ar y dde i chi. Parhewch ar hyd y llwybr troed i fyny'r allt drwy'r coed, gan ddilyn yr arwyddbyst nes i chi gyrraedd bwlch yn y wal.

8




Ewch drwy'r bwlch a dilynwch y llwybr allan o'r coetir i'r grib. Dilynwch y llwybr ag arwyddbyst ar hyd y grib nes i chi gyrraedd giât mewn wal gerrig. Mwynhewch y golygfeydd 360.

9



Ewch drwy'r giât a dilynwch y llwybr drwy'r coetir, parhewch drwy fwlch yn y wal a dilynwch y llwybr ag arwyddbyst. Parhewch ar hyd y llwybr i'r dde o flaen y tŷ, Garth y Foel, tuag at giât fechan mewn wal gerrig ar y dde i chi. Ewch drwy'r gât, trowch i'r chwith a dilynwch y trac fferm heibio Garth y Foel a dilynwch y llwybr i'r dde o'r adeiladau allanol at giât bren.

10



Ewch drwy'r giât ac ewch i'r dde i fyny'r allt drwy'r coetir, gan ddilyn y llwybr ag arwyddbyst at gamfa ris. Ewch dros y gamfa a pharhau ar hyd y llwybr, drwy giât fach bren nes cyrraedd giât fetel. Gan ddilyn y cyfeirbwynt, ewch drwy'r giât fetel a chroesi'r cae gan anelu at y tŷ gwyn, Cae-glâs ac ymlaen at giât fetel ger yr adeilad allanol carreg sydd ar y dde.

11



Ar ôl mynd drwy'r giât, ewch tuag at yr adeilad allanol a thrwy'r giatiau a dilyn y trac o flaen y tŷ nes cyrraedd y ffordd. Ewch drwy'r giât, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd nol i Groesor a'r maes parcio.